# PWYLLGOR PENODI

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 26 Mehefin 2015

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Y Cynghorwyr Jeff M. Evans, John Griffith, Victor Hughes, Carwyn Jones, R G Parry OBE, Ieuan Williams. |
| **WRTH LAW:** | Y Prif Weithredwr,<br>Pennaeth Proffesiwn – Adnoddau Dynol,<br>Swyddog Pwyllgor (MEH). |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorwyr D R Hughes, H E Jones a J A Roberts |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Dim |

---

**1 ETHOL CADEIRYDD**

Ail-etholwyd y Cynghorydd Ieuan Williams yn Gadeirydd y Pwyllgor Penodi.

**2 ETHOL IS-GADEIRYDD**

Ail-etholwyd y Cynghorydd Bob Parry OBE yn Is-gadeirydd y Pwyllgor Penodi.

**3 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad.

**4 COFNODION**

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 1 Mai 2015.

**5 CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r hyn a ganlyn:-**

**"Dan Adran 100 (A)(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, gyrrwyd y wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem a ganlyn, oherwydd y tebygrwydd y câi gwybodaeth ei rhyddhau a honno'n wybodaeth y gwna Paragraff 12 y Ddeddf a'r Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm eithriad ohoni."**

**6 ADOLYGU'R UWCH DÎM ARWEINYDDIAETH**

Amlinellodd y Pennaeth Proffesiwn - Adnoddau Dynol y broses yng nghyswllt hysbysebu a phenodi i swyddi'r Prif Weithredwr Cynorthwyol (Llywodraethu Corfforaethol a Thrawsnewid Mewnol) a'r Prif Weithredwr Cynorthwyol (Partneriaeth a Thrawsnewid Allanol) i'r Pwyllgor.

**PENDERFYNWYD y byddai'r hysbysebion ar gyfer swyddi'r Prif Weithredwr Cynorthwyol (Llywodraethu Corfforaethol a Thrawsnewid Mewnol) a'r Prif Weithredwr Cynorthwyol (Partneriaeth a Thrawsnewid Allanol) yn cael eu hysbysebu ar wefan y Cyngor ac y byddai datganiad i'r wasg yn cael ei gyhoeddi.**

**7 CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r hyn a ganlyn:-**

**"Dan Adran 100 (A)(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, gyrrwyd y wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem a ganlyn, oherwydd y tebygrwydd y câi gwybodaeth ei rhyddhau a honno'n wybodaeth y gwna Paragraff 12 y Ddeddf a'r Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm eithriad ohoni."**

**8 PENODI STAFF**

**Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151**

Rhoddodd y Pennaeth Proffesiwn – Adnoddau Dynol adroddiad llafar ar y broses o benodi i'r swydd uchod.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.**

**Y CYNGHORYDD IEUAN WILLIAMS**
**CADEIRYDD**